

1988 No. 1265

HOUSING, ENGLAND AND WALES

The Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) Regulations 1988

Made - - - - *11th July 1988*

Coming into force - *1st September 1988*

The Secretary of State for Wales in exercise of the powers conferred on him by section 176(1) and (5) of the Housing Act 1985(a) as extended by subsections (2) and (3) of the section 2 of the Welsh Language Act 1967(b) and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following Regulations:-

1.—(1) These Regulations may be cited as the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) Regulations 1988 and shall come into force on 1st September 1988.

(2) In these Regulations “the principal Regulations” means the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) Regulations 1986(c).

2. The forms set out in Schedules 1 and 2 to these Regulations are hereby prescribed as versions in Welsh which may be used instead of the forms in Schedules 1 and 2 to the principal Regulations for the purposes of sections 122(1) and 124(1) of the Housing Act 1985.

3. Forms substantially to the like effect to the forms set out in Schedules 1 and 2 to these Regulations may be used.

4. The particulars to be contained in any notice, the form of which is prescribed by regulations 2 and 3 above, shall be those required by that form.

5.—(1) The Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) (No. 3) Regulations 1985(d) are hereby revoked.

(2) Nothing in these Regulations shall affect the validity of any notice served by a secure tenant under section 122(1) of the Housing Act 1985(e) before 1st November 1988 if the notice was in the form prescribed by the regulations mentioned in paragraph (1) above or in a form substantially to the like effect.

(a) 1985 c.68.

(b) 1967 c.66.

(c) S.I. 1986/2194.

(d) S.I. 1985/36.

(e) By virtue of section 2(2) of the Housing (Consequential Provisions) Act 1985 (c. 71), a notice served under section 5(1) of the Housing Act 1980 (c.51) has effect as if served under section 122(1) of the Housing Act 1985.

SCHEDULE 1

FFURFLEN RTB 1

Deddf Tai 1985: Adran 122

Hysbysiad Mynnu'r Hawl i Brynu

Hysbysiad yw hwn a ddefnyddir gan denantiaid cynghorau a rhai tenantiaid arbennig eraill (e.e. tenantiaid trefi newydd a thenantiaid cymdeithasau tai) sydd am arfer eu hawl i brynu eu cartrefi.

Cyn llenwi unrhyw ran o'r hysbysiad hwn darllenwch y y nodiadau sy'n ymwneud â'r rhan honno.

Gall fod o gymorth i chi ddarllen llyfryn y Llywodraeth 'Eich Hawl i Brynu'ch Cartref'. Gallwch gael copi oddi wrth eich landlord, mewn Canolfan Cynghori neu drwy ysgrifennu at yr Adran Hysbysrwydd, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ.

Os hoffech gael cyngor, gallwch gael cymorth yn y Ganolfan Cynghori neu ymgynghori â chyfreithiwr. Fe all y byddwch yn gymwys i gael cymorth i dalu cyfreithiwr am ei gyngor o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol.

Ar ôl i chi lenwi'r hysbysiad hwn, ewch ag ef, neu ei anfon drwy'r post a defnyddio'r gwasanaeth dosbarthiad a gofnodwyd, at eich landlord. Os ewch ag ef eich hun gofynnwch am dderbynneb. Cadwch gopi o'r hysbysiad ar ôl i chi ei lenwi.

AT Y LANDLORD

Rhan A: Yr eiddo

Rhowch y manylion canlynol:
Cyfeiriad yr eiddo yr ydych am ei brynu

Enw eich landlord

Nodyn

Ni allwch ymarfer yr hawl i brynu eiddo ar wahân i'r eiddo lle'r ydych yn denant. Ni wnaiff unrhyw wahaniaeth p'un ai tŷ, byngalo, fflat neu 'maisonette' sydd gennych—gall yr hawl i brynu barhau yr un fath.

Rhan B: Y tenant(iaid)

Rhowch y manylion canlynol am bob un o denantiaid yr eiddo:

Cyfenw	Enwau eraill	Ai unig/prif gartref y tenant yw'r eiddo?	A yw ef/hi yn dymuno prynu?
		Rhowch ✓ yn y blwch priodol	
		Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/> Ydyw <input type="checkbox"/> Nac Ydyw <input type="checkbox"/>
		Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/> Ydyw <input type="checkbox"/> Nac Ydyw <input type="checkbox"/>
		Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/> Ydyw <input type="checkbox"/> Nac Ydyw <input type="checkbox"/>
		Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/> Ydyw <input type="checkbox"/> Nac Ydyw <input type="checkbox"/>

Nodiadau

1. Byddwch yn denant os yw eich enw ar y cytundeb tenantiaeth, ar y llyfr rhent neu'r cerdyn rhent.
 2. Ni allwch ymarfer eich hawl i brynu os nad eich unig/prif gartref yw'r eiddo. (Os ydych yn gwneud cais am brynu ar y cyd gyda thenantiaid eraill, dim ond un tenant sy'n gorfod bodloni'r amod hon).
 3. Rhaid cael cytundeb unrhyw denantiaid nad ydynt yn dymuno prynu cyn ceisio'r hawl i brynu. Dylent lofnodi Rhan G yr hysbysiad hwn. Daw eu tenantiaeth i ben pan brynwch yr eiddo.
-

Rhan C: Aelod(au) o deulu yn rhannu'r hawl i brynu

Os ydych am rannu'r hawl i brynu gydag unrhyw aelod o'ch teulu nad yw'n denant, rhowch y manylion amdanant isod:

Cyfenw	Enwau eraill	Perthynas â'r tenant	Ai unig/prif gartref yr aelod o'r teulu yw'r eiddo?	A fu'n byw gyda'r tenant drwy gydol y 12 mis diwethaf?		
			Rhowch ✓ yn y blwch priodol			
			Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/>	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
			Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/>	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
			Ie <input type="checkbox"/>	Nage <input type="checkbox"/>	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>

Nodiadau

1. Gall eich gŵr neu'ch gwraig rannu'r hawl i brynu gyda chi os yr eiddo yw eu hunig/prif gartref.
 2. Gall aelodau eraill eich teulu rannu'r hawl i brynu os yr eiddo yw eu hunig/prif gartref a'u bod wedi byw gyda chi drwy gydol y 12 mis diwethaf (neu gyfnod byrrach a dderbynnir gan eich landlord). Caiff person sy'n byw gyda chi fel eich gŵr neu'ch gwraig, ond heb fod yn briod â chi, ei ystyried yn aelod o'ch teulu.
 3. Gallwch rannu'r hawl i brynu gyda chynifer â 3 aelod o'ch teulu nad ydynt yn denantiaid eu hunain.
-

Rhan D: Cymhwyster a disgownt

Darllenwch y nodiadau hyn cyn llenwi'r tabl(au).

1. Cyn bod yn gymwys i ymarfer yr hawl i brynu rhaid i chi allu cyfrif cyfanswm o 2 flynedd o leiaf a dreuliwyd gennych fel tenant sector cyhoeddus neu fel deiliad lluoedd arfog. Nid oes angen i chi fod wedi treulio'r 2 flynedd yn eich cartref presennol na gyda'ch landlord presennol, ac o dan rai amgylchiadau gellir cyfrif y cyfnodau a dreuliwyd gan berson arall (er enghraifft, eich gŵr neu'ch gwraig) fel tenant sector cyhoeddus neu fel deiliad lluoedd arfog fel rhan o'ch cyfnod 2 flynedd o ymgymhwyso.

Tenant sector cyhoeddus yw tenant un o landlordiaid y sector cyhoeddus a restrir ar dudalen 12 sy'n meddiannu'r eiddo fel ei (h)unig/ei brif/ei phrif gartref. (Gall hyn gynnwys person a gyflogir ac sy'n byw mewn lle a ddarperir mewn cysylltiad â'i swydd).

Deiliad lluoedd arfog yw person sy'n meddiannu lle a ddarperir iddo/iddi fel aelod o luoedd arfog parhaol y Goron.

2. Disgownt. Mae'r disgownt hefyd yn dibynnu ar gyfnodau a dreuliwyd fel tenant sector cyhoeddus neu fel deiliad lluoedd arfog. Nid oes angen i chi fod wedi treulio'r cyfnodau hyn yn eich cartref presennol na gyda'ch landlord presennol, ac o dan rai amgylchiadau gellir cyfrif at ddibenion disgownt y cyfnodau a dreuliwyd gan berson arall (er enghraifft, eich gŵr neu'ch gwraig) fel tenant yn y sector cyhoeddus neu fel deiliad lluoedd arfog.

3. Fel rheol, os ydych yn denant tŷ ac os oes gennych y cyfnod angenrheidiol o 2 flynedd i fod yn gymwys i ymarfer yr hawl i brynu, bydd gennych hawl i gael disgownt o 32%. Gall fod gennych hawl hefyd i 1% ychwanegol o ddisgownt bob blwyddyn gyfan dros y 2 flynedd. Felly, os buoch, er enghraifft, yn denant sector cyhoeddus am 10 mlynedd, gallai'ch disgownt fod yn 40%. Disgownt o 60% yw'r uchaf a ganiateir ar gyfer tai.

4. Fel rheol, os ydych yn denant fflat neu 'maisonette' ac os oes gennych y cyfnod angenrheidiol o 2 flynedd i fod yn gymwys i ymarfer yr hawl i brynu, bydd gennych hawl i gael disgownt o 44%. Gall fod gennych hawl hefyd i 2% ychwanegol o ddisgownt am bob blwyddyn gyfan dros y 2 flynedd. Felly, os buoch, er enghraifft, yn denant sector cyhoeddus am 5 mlynedd gallai'ch disgownt fod yn 50%. Disgownt o 70% yw'r uchaf a ganiateir ar gyfer fflatiau a 'maisonettes'.

Ar gefn y ddalen hon ceir
cyfarwyddiadau
ynghylch llenwi'r tabl

>

Rhan D: Cymhwyster a disgownt (parhad)

Edrychwch ar y penawdau isod o un i un. Lle mae pennawd yn berthnasol i chi, rhowch y manylion yn y tabl gyferbyn. Os ydych yn gwneud cais am brynu ar y cyd ag eraill, dylai pob un o'r prynwyr lenwi tabl ar wahân.

1. Tenantiaethau presennol a blaenorol

Rhowch fanylion:

- eich tenantiaeth bresennol os ydych yn denant yr eiddo
- unrhyw gyfnodau yn y gorffennol pan oeddech yn denant sector cyhoeddus neu'n ddeiliad lluoedd arfog.

2. Os ydych yn briod ac yn byw gyda'ch gŵr neu'ch gwraig

Rhowch fanylion unrhyw gyfnodau pan oedd eich gŵr neu'ch gwraig:

- yn denant sector cyhoeddus neu'n ddeiliad lluoedd arfog
- yn briod o'r blaen â pherson arall ac yn byw mewn eiddo lle'r oedd y person hwnnw'n denant sector cyhoeddus neu'n ddeiliad lluoedd arfog.

3. Os ydych wedi gwahanu neu wedi cael ysgariad

Rhowch fanylion unrhyw gyfnodau pan oeddech yn byw mewn eiddo lle'r oedd eich gŵr neu'ch gwraig yr ydych wedi gwahanu neu wedi cael ysgariad oddi wrtho/wrthi yn denant sector cyhoeddus neu'n ddeiliad lluoedd arfog.

4. Os yw eich gŵr neu'ch gwraig wedi marw a chithau'n byw gyda'ch gilydd pan fu farw

Rhowch fanylion unrhyw gyfnodau pan oedd eich gŵr neu'ch gwraig ymadawedig:

- yn denant sector cyhoeddus neu'n ddeiliad lluoedd arfog
- yn briod o'r blaen â pherson arall ac yn byw mewn eiddo lle'r oedd y person hwnnw'n denant sector cyhoeddus neu'n ddeiliad lluoedd arfog

5. Tenantiaid a gymerodd drosodd denantiaeth sector cyhoeddus oddi wrth riant

(Gall cyfnodau a dreuliwyd ar ôl cyrraedd 16 oed yn byw mewn eiddo lle'r oedd rhiant yn denant sector cyhoeddus gyfrif at gyfnod cymhwyster a disgownt os bu i'r plentyn hwnnw gymryd drosodd denantiaeth sector cyhoeddus y rhiant).

Rhowch fanylion unrhyw gyfnod:

- pan oeddech dros 16 oed ac yn byw gyda rhiant a oedd yn denant sector cyhoeddus
- pan oedd person yr ydych/oeddech yn briod ag ef/hi dros 16 oed ac yn byw gyda rhiant a oedd yn denant sector cyhoeddus.
- pan oedd person yr oedd eich gŵr neu'ch gwraig yn briod ag ef/hi dros 16 oed ac yn byw gyda rhiant a oedd yn denant sector cyhoeddus.

Enw'r prynwr:

Cyfnod		Enw'r tenant(iaid) (neu aelod o'r lluocdd arfog)	Cyfeiriad yr eiddo (nid oes ei angen yn achos llety i'r lluocdd arfog)	Enw'r landlord (neu gangen o'r lluocdd arfog)
o mis/blwyddyn	hyd mis/blwyddyn			

--	--	--	--	--

--	--	--	--	--

--	--	--	--	--

--	--	--	--	--

Rhan E: Disgownt Blaenorol

Rhowch isod fanylion unrhyw brynu blaenorol lle caniateid disgownt gan landlord sector cyhoeddus (gweler tudalen 12) a wnaethoch chi (neu'ch gŵr neu'ch gwraig, neu'ch gŵr neu'ch gwraig ymadawedig). Os ydych yn gwneud cais am gael prynu ar y cyd ag eraill, rhowch fanylion pob un o'r prynwyr.

Cyfeiriad yr eiddo	Enw'r landlord sector cyhoeddus	Enw'r prynwr blaenorol	Dyddiad prynu <i>(Mis/Blwyddyn)</i>

Nodyn

Gall unrhyw ddisgownt a gafwyd o'r blaen wrth brynu oddi wrth landlord sector cyhoeddus, ar ôl tynnu ohono unrhyw swm a ad-dalwyd yn ddiweddarach, gael ei dynnu o'r disgownt a ganiateir ar eich prynu presennol.

Rhan F: Gwelliannau gan denantiaid

Rhowch y manylion canlynol am unrhyw welliannau i'r eiddo a wnaed gan y tenantiaid:

Disgrifiad o'r gwelliant	Enw'r tenant a wnaeth y gwelliant

Nodyn

1. Pan brisir yr eiddo i bennu'r pris fe anwybyddir unrhyw welliannau a wnaed gennych, ac oherwydd hynny fe all y pris fod yn is.
2. Os aelod o'ch teulu neu eich cyn-ŵr/wraig oedd tenant yr eiddo yn union o'ch blaen, fe anwybyddir hefyd unrhyw welliannau a wnaed ganddo/ganddi.
3. Dylech roi manylion unrhyw welliannau o'r fath y gallant, yn eich barn chi, effeithio ar werth yr eiddo, e.e. gwres canolog, ffenestri gwydr dwbl, cegin neu ystafell ymolchi â chelfi parhaol newydd.

Rhan G: Llofnodion

Cofiwch y gallwch gael eich erlyn am roi gwybodaeth ffug yn fwriadol

I'w lenwi gan bob un o'r tenantiaid sy'n dymuno prynu:

- Yr wyf am gael yr hawl i brynu
- Hyd y gwn, mae'r wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad hwn yn gywir

<i>Llofnod</i>	<i>Cyfenw</i>	<i>Enwau eraill</i>	<i>Dyddiad</i>	<i>Rhif ffôn dydd (os oes un)</i>

I'w lenwi gan bob aelod o'r teulu (nad yw'n denant) sy'n rhannu'r hawl i brynu:

- Cytunaf i rannu'r hawl i brynu
- Hyd y gwn, mae'r wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad hwn yn gywir

<i>Llofnod</i>	<i>Cyfenw</i>	<i>Enwau eraill</i>	<i>Dyddiad</i>

I'w lenwi gan bob tenant nad yw'n dymuno prynu:

(Daw eich tenantiaeth i ben os â'r prynu rhagddo)

- Nid wyf am gael yr hawl i brynu
- Cytunaf i'r prynwr/wyr uchod ymarfer ei/eu hawl i brynu a'i/a'u hawl i gael morgais

<i>Llofnod</i>	<i>Cyfenw</i>	<i>Enwau eraill</i>	<i>Dyddiad</i>

Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhaid i'ch landlord ateb eich cais drwy gydnabod neu drwy wrthod eich hawl i brynu. Os gwrthodir yr hawl i brynu, rhaid rhoi'r rhesymau. Caiff eich landlord 4 wythnos i ateb os na fydd y cyfnod o 2 flynedd y mae eich cymhwyster i ymarfer eich hawl i brynu yn dibynnu arno yn cynnwys cyfnod a dreuliyd gennych fel tenant landlord arall. Mewn achos felly, rhaid i'ch landlord ateb o fewn 8 wythnos.

Ar ôl i'ch landlord gydnabod eich hawl i brynu rhaid iddo roi gwybod i chi am delerau arfaethedig y gwerthu, gan gynnwys y pris prynu.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn eich rhwymo i brynu'r eiddo. Gallwch dynnu'n ôl unrhyw bryd cyn cwblhau'r prynu, a hynny drwy hysbysu eich landlord yn ysgrifenedig.

Landlordiaid sector cyhoeddus (gweler Rhannau D a E)

Awdurdodau lleol

Unrhyw un o'r cyrff canlynol a sefydlwyd yn sgîl diddymu Cyngor Llundain Fwyaf a'r cyngorau sir metropolitan:

Awdurdod Addysg Llundain Fewnol;
awdurdod heddlu sir fetropolitan; Awdurdod Heddlu Northumbria;
awdurdod tân ac amddiffyn sifil sir fetropolitan;
Awdurdod Tân ac Amddiffyn Sifil Llundain;
awdurdod trafndiaeth teithwyr sir fetropolitan;
Awdurdod Rheoli Gwastraff Llundain;
Awdurdod Gwastraff Gorllewin Llundain,
Gogledd Llundain, Dwyrain Llundain a
Glannau Gorllewinol Afon Tafwys;
Awdurdodau Gwaredu Gwastraff Glannau
Mersi a Manceinion Fwyaf;
Corff Gweddilliol Llundain; corff gweddilliol
sir fetropolitan;

Y Cyngor Ymchwil Amaethyddol a Bwyd

Awdurdod Meysydd Awyr Prydain
Y Gorfforaeth Ddarledu Brydeinig
Corfforaeth Nwy Prydain
Bwrdd y Rheilffyrdd Prydeinig
Corfforaeth Ddur Prydain
Bwrdd Cyrsiau Dŵr Prydain
Y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
Y Cyngor Trydan
Bwrdd Cynllunio Arbennig Ardal y Llynnoedd
Trafnidiaeth Rhanbarthol Llundain

Cynghorau Cymdeithas yng Nghymru
Bwrdd Datblygu Cymru Wledig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Comisiynwyr Goleudai'r Gogledd
Comisiwn Cefn Gwlad yr Alban
Bwrdd Datblygu'r Ucheldir a'r Ynysoedd

Byrddau addysg a llyfrgelloedd yng Ngogledd
Iwerddon
Awdurdod Tân Gogledd Iwerddon

Gwasanaeth Trydan Gogledd Iwerddon

Corfforaethau datblygu trefi newydd
Cymdeithasau tai cofrestredig ond nid os ydynt
yn rhai cydberchnogaeth neu'n gymdeithasau
cydweithredol llawn
Y Gorfforaeth Tai
Corfforaethau datblygu trefol
Comisiwn y Trefi Newydd

Byrddau trydan rhanbarthol
Awdurdodau tân
Byrddau traenio mewnl
Gweinidogion y Goron ac Adrannau'r
Llywodraeth*
Awdurdodau gweithredol cludo teithwyr
Awdurdod heddlu
Awdurdod dŵr

Y Cyngor Ymchwil Meddygol .

Y Cwmni Bysiau Cenedlaethol
Glo Prydain
Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol
Y Cyngor Gwarchod Natur
Cyd-Fwrdd Cynllunio Parc y 'Peak District'
Swyddfa'r Post
Y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a
Pheirianneg
Y Cyngor Chwaraeon
Trinity House†
Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Gyfunol

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru

Bwrdd Trydan-Dŵr Gogledd yr Alban
Cymdeithas Tai Arbennig yr Alban
Cyngor Chwaraeon yr Alban
Bwrdd Trydan De'r Alban

Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon
Cwmni Daliannol Trafnidiaeth Gogledd
Iwerddon
Awdurdod Heddlu Gogledd Iwerddon

* ac eithrio llety swyddogion carchar

† yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod goleudai yn unig

AC UNRHYW RAGFLAENWYR I'R LANDLORDIAID HYN

SCHEDULE 2
FFURFLEN RTB 2
Deddf Tai 1985: Adran 124

HYSBYSIAD YN ATEB CAIS TENANT AM YR HAWL I BRYNU
ENW'R LANDLORD

Dylai'r Landlord ddileu unrhyw Ran o'r hysbysiad hwn nad yw'n gymwys.

Rhan A: Cydnabod yr hawl i brynu

At: Enw(au)'r person(au) y cydnabyddir ei/eu hawl i brynu

<i>Cyfenw</i>	<i>Enwau eraill</i>

Cydnabyddir eich hawl i brynu'r eiddo canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo

--	--

Daeth eich cais i law ar [*dyddiad*]. Caiff y pris prynu ei seilio ar bris marchnad yr eiddo ar y dyddiad hwnnw.

NODYN I'R TENANT

Mae'n ofynnol i'r landlord anfon hysbysiad atoch gan nodi telerau arfaethedig y gwerthu, gan gynnwys y pris prynu, yn ystod yr 8 wythnos nesaf (neu 12 wythnos os ydych yn prynu prydles yr eiddo yn hytrach na'r rhyddfrait).

Rhan B: Gwrthod yr hawl i brynu

At: Enw(au)'r person(au) y gwrthodir iddo/iddynt brynu'r eiddo

Cyfenw

Gwrthodir yr hawl i chi brynu'r eiddo canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo

Rheswm/Rhesymau dros wrthod

Ym marn y landlord nid oes gennych yr hawl i brynu am y rheswm/rhesymau canlynol:

Rhowch y rhesymau llawn; cynhwyswch gyfeiriadau at unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol

.....

.....

.....

.....

.....

NODYN I'R TENANT

Ni ellir gwrthod yr hawl i brynu i chi ond o dan yr amgylchiadau a nodir yn Neddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986. Ceir cyfarwyddyd yn y llyfryn 'Eich Hawl i Brynu'ch Cartref' sy'n esbonio sut mae cael cymorth a chyfarwyddyd os ydych yn amau'r rhesymau a roddir.

Llofnodwyd ar ran
y landlord Enw

Swydd a ddelir Dyddiad

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations prescribe Welsh versions of the forms of notice for use in connection with the right to buy under sections 122(1) and 124(1) of the Housing Act 1985 (regulations 2 and 3) and the particulars to be contained in them (regulation 4). The forms are—

- (a) the form of notice to be used by a secure tenant to claim the right to buy (Form RTB 1); and
- (b) the form of notice to be used by a landlord to accept or reject the tenant's claim (Form RTB 2).

The forms replace those prescribed by the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) (No. 3) Regulations 1985 which are revoked (regulation 5(1)). A notice claiming the right to buy served by a secure tenant before 1st November 1988 is not invalidated by these Regulations if it is in the form required by the 1985 Regulations or in a substantially similar form (regulation 5(2)).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheolau)

Mae'r rheolau hyn yn pennu fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni hysbysu sydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r hawl i brynu o dan adrannau 122(1) ac 124(1) Deddf Tai 1985 (rheolau 2 a 3) a'r manylion sydd i'w cynnwys ynddynt (rheol 4). Y ffurflenni hyn yw:

- (a) y ffurflen hysbysu sydd i'w defnyddio gan denant diogel i wneud cais am yr hawl i brynu (Ffurflen RTB1);
- (b) y ffurflen hysbysu sydd i'w defnyddio gan landlord i dderbyn neu wrthod cais y tenant (Ffurflen RTB2).

Mae'r ffurflenni hyn yn disodli'r rhai a bennwyd gan "The Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) (No. 3) 1985", sy'n cael eu diddymu (rheol 5(1)). Ni ddirymir hysbysiad sy'n ceisio'r hawl i brynu a gyflwynwyd gan denant diogel cyn 1af Tachwedd 1988 gan y rheolau hyn os yw'n dilyn trefn y ffurflen a fynnir gan Reolau 1985 neu ar ffurf sy'n sylweddol debyg iddi (rheol 5(2)).